

Cyfeirnod: IR761

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2020

Cyfrifon Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am Gyfrifon Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent.

Gallaf gadarnhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru (Yr Archwilydd Cyffredinol) wedi rhoi barn archwilio ar gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2016-2017, 2017-2018, 2018-2019. Mae'r archwiliad o ran cyfrifon 2019-20 y Cyngor yn parhau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon 2016-2017 a 2017-2018 y Cyngor oherwydd pryderon ynghylch cyfreithlondeb cyfraniadau pensiwn a dalwyd gan y Cyngor i'r Cynllun Llywodraeth Leol. Roedd y cyfraniadau pensiwn yn ymwneud â'r swyddi a gymerodd gan ddau swyddog o'r Cyngor fel cyfarwyddwyr Silent Valley Waste Services Ltd (Silent Valley), cwmni sy'n eiddo i'r Cyngor yn gyfan gwbl. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn ddiamedod ar gyfrifon 2018-2019 y Cyngor.

Er bod archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol wedi cwblhau digon o waith archwilio i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i roi barn archwilio ar gyfrifon 2016-2017, 2017-2018, 2018-2019 y Cyngor, nid yw'r archwiliad ar gyfer y blynyddoedd hyn wedi'i gwblhau ac ni fydd wedi'i ardystio fel un cyflawn hyd nes y bydd yr holl waith archwilio wedi'i gwblhau, ac os oes angen adrodd arno. Mae archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i archwilio materion sy'n ymwneud â pherthynas y Cyngor â Silent Valley. Fodd bynnag, cyn roi ei farn ar gyfrifon y Cyngor, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun nad oedd gan ganlyniad unrhyw waith archwilio a oedd yn weddill y potensial i effeithio yn ychwanegol ar y farn yr oedd yn bwriadu ei rhoi.

O ran argaeledd cyfrifon archwiliedig y Cyngor ar gyfer 2016-17 i 2018-19, deallaf y bydd y rhain ar gael ar wefan y Cyngor yn fuan.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso

i chi gysylltu â mi.

Yn gywir
Swyddog Gwybodaeth